**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

9 Ionawr 2026

Annwyl Peredur

**Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)**

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2025. Gweler fy ymateb i gyfres o argymhellion yr adroddiad yn Atodiad 1.

Rwy'n darparu ymateb ysgrifenedig i adroddiadau Cyfnod 1 y Pwyllgor cyn y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am graffu ar y Bil a'i ddogfennau ategol. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Aelodau wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy broses y Senedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er gwybodaeth.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

| Argymhelliad y Pwyllgor | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cwnsler Cyffredinol yn parhau i weithio'n agos gyda gweinyddwyr etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, pleidiau gwleidyddol, Comisiwn y Senedd a'r Comisiynydd Safonau i fireinio amcangyfrifon cost tra bod y mesur yn mynd drwy'r Senedd, gan sicrhau bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn parhau i fod yn gadarn ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r Bil. | **Derbyn**<br><br>Fel sy'n arfer safonol, yn dilyn trafodion Cyfnod 2, bydd fy swyddogion yn adolygu'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Wrth ddatblygu'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig, bydd fy swyddogion yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i adlewyrchu newidiadau i'r goblygiadau ariannol o ganlyniad i unrhyw welliannau. |
| **Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cwnsler Cyffredinol, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn pennu'r gost amcangyfrifedig o ddarparu cymorth cynefino a pharhaus i aelodau lleyg, ac yn ymgorffori hyn wrth ddiwygio Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2. | **Derbyn**<br><br>Bydd fy swyddogion yn ymgysylltu â swyddogion Comisiwn y Senedd i geisio cynnal asesiad o gostau rhaglen gynefino ar gyfer aelodau lleyg. |
| **Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn sefydlu llinell wariant ar wahân yn ei ddogfennaeth gyllideb flynyddol ar gyfer costau aelodau lleyg, ac y gellir ei adnabod yn glir, er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder. | **Nodwyd**<br><br>Nodaf mai argymhelliad i Gomisiwn y Senedd ymateb iddo yw'r argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Cwnsler Cyffredinol, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd a'r Comisiynydd Safonau, yn pennu'r costau cyfle sy'n gysylltiedig ag ymgymryd ag ymchwiliad ar ei ysgogiad ei hun ac yn ymgorffori hyn wrth ddiwygio Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ôl Cyfnod 2. | **Derbyn**<br><br>Bydd fy swyddogion yn ymgysylltu â swyddogion Comisiwn y Senedd a'r Comisiynydd Safonau i geisio asesu ymhellach y costau cyfle sy'n gysylltiedig ag ymgymryd ag ymchwiliadau ar eu hysgogiad eu hunain. |
| **Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell diwygio'r Bil i gynnwys gofyniad statudol ar gyfer adolygiad ôl-weithredu, a ysgogir gan y defnydd cyntaf o'r pôl adalw, ac y dylai'r adolygiad gynnwys asesiad o gostau a manteision cysylltiedig y ddeddfwriaeth. | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Rwy'n cytuno ag egwyddor argymhellion y Pwyllgor, y dylid cynnal adolygiad o system newydd ar ôl iddi gael ei defnyddio. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn ei bod yn angenrheidiol creu dyletswydd adolygu statudol mewn cysylltiad â Pholau Adalw, ac efallai y bydd cymhlethdodau ynghlwm wrth gysylltu adolygiad â'r defnydd cyntaf o'r pôl adalw.<br><br>Rwy'n ymwybodol bod y Bil eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol lunio a chyhoeddi adroddiad ar weinyddu unrhyw bôl adalw, ac wrth i ddarpariaethau'r rheoliadau |

| | |
|---|---|
| | ariannol gael eu datblygu, byddwn yn ystyried i ba raddau y mae'n ofynnol i ymgyrchwyr cofrestredig neu unigolion cyfatebol adrodd ar wariant yr ânt iddo i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol neu'r Comisiwn Etholiadol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru, fel mater o drefn, yn cyhoeddi'r costau gweinyddol yr aiff Swyddogion Canlyniadau Etholaethol iddynt, ac a gaiff eu hailgodi ar Gronfa Gyfunol Cymru mewn cysylltiad ag etholiadau'r Senedd, a bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r un dull i ymdrin â chostau gweinyddol yr eir iddynt mewn cysylltiad â pholau adalw.<br><br>O ystyried bod system adalw, yn ei hanfod, yn bolisi sy'n eiddo i'r Senedd, rwy'n credu y byddai'n fwyaf priodol i'r Senedd gynnal unrhyw adolygiad ôl-ddeddfwriaethol o'r fath. Mae hyn yn unol â'r dull a gymerwyd o ran rhaglen Ddiwygio'r Senedd yn ei chyfanrwydd ac a nodir yn Neddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Wrth gwrs, mater i'r Senedd yw cynnal unrhyw adolygiad o'r fath o weithrediad system adalw, a dylai gael y disgresiwn i benderfynu ar yr amser mwyaf priodol i wneud hynny. |